astudiaethachos

Ysgol Gyfun Bryntirion

Ann Jenkins Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd y Prosiect

Mae Ysgol Gyfun Bryntirion ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, yn Ne Cymru yn ysgol o dros 1000 o ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed. Daeth yr ysgol at Lisol yn 2004 i weithredu datrysiad ar gyfer tracio disgyblion ac ysgrifennu adroddiadau ac maent wedi bod yn defnyddio'r system am bron i flwyddyn.

Mae gan yr ysgol 65 o staff dysgu a oedd yn treulio miloedd o oriau dynol yn paratoi adroddiadau interim ac adroddiadau llawn trwy eu llaw-ysgrifennu. Cafodd staff gweinyddol y dasg o baratoi, cywiro, dosbarthu a chasglu ffurflenni OMR, tasg a oedd yn cymryd tua wyth wythnos ar gyfer pob asesiad. Mae'r *'Pupil Data Pathway'* wedi lleihau baich y gwaith yma yn sylweddol, gan alluogi staff dysgu a gweinyddol i ganolbwyntio ar dasgau mwy cynhyrchiol.

> “tracio cynnydd disgyblion yn erbyn y targedau rydym wedi gosod ar eu cyfer”

Dywed Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd y Prosiect ar gyfer *Llwybrau ar gyfer Ysgolion* ym Mryntirion am lwyddiant y system,

"Un o'r agweddau mwyaf defnyddiol o'r *'Pupil Data Pathway'* yw'r gallu i dracio cynnydd disgyblion yn erbyn y targedau rydym wedi gosod ar eu cyfer. Yna defnyddiwn yr wybodaeth hwn i benderfynu pa ddisgyblion sy'n ymddangos fel pebaent yn tangyflawni a gallwn ymateb yn gyflym er mwyn ymyrryd a chynnig cefnogaeth iddynt. Yn yr un modd, gallwn adnabod y disgyblion hynny sy'n rhagori ar eu targedau a'u newid er mwyn sicrhau ein bod yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial."

Bellach ni fydd profion Cyfnod Allweddol 3 yng Nghymru yn cael eu defnyddio i asesu perfformiad felly bydd angen i ysgolion uwchradd ddatblygu systemau archwilio mewnol cadarn er mwyn mesur perfformiad disgybl. Mae *'Pathways for Schools'* yn ddatrysiad sy'n gweithio, ac sydd ar gael eisoes.

Mae arsylwadau o safonau'r system allweddol yn cynnwys

- y ffaith fod gan bob aelod o staff eu hardal bersonol eu hunain ar y system wedi arwain at deimlad cryfach o **berchnogaeth.** Gall athrawon gyfeirio at wybodaeth hanesyddol a gallant wneud cywiriadau i ddata hyd at y dyddiad cyhoeddi.
- Gellir storio adroddiadau'r gorffennol ar y system am gyfnod diddiwedd o amser gan gael gwared ar yr angen am le i storio copïau papur a gellir cael mynediad i adroddiadau'n syth. Felly os yw rhiant yn ymweld ar fyr rybudd neu'n gwneud galwad teleffon, gellir cael mynediad i adroddiad y plentyn yn syth trwy'r system.
- Gall staff gwblhau eu gwaith heb orfod dibynnu ar y ffaith fod eraill wedi cwblhau eu gwaith. Galluoga *'Pathways for Schools'* athrawon i weithio ar yr un pryd ac felly gall athrawon gofnodi eu sylwadau a graddau heb orfod aros eu tro yn y broses - gyda *'Pathways for Schools'*, gall pob athro weithio'n gydweithrediadol ac mae'r system yn coladu'r wybodaeth mae'r ysgol yn dymuno. Nid oes effaith fel cadwyn, mae popeth yn digwydd ar yr un pryd.
- Gall bob aelod o staff wneud gwiriadau sicrhau ansawdd trwy gydol y broses.
- Nawr gellir gwneud adroddiadau interim yn hawdd o fewn tri neu bedwar niwrnod, tra bod adroddiad llawn yn cymryd rhwng tua wythnos a phythefnos, yn dibynnu ar yr amser o'r flwyddyn.
- Gellir croesgyfeirio rhwng data a gofnodwyd ar gyfer adroddiadau gyda thargedau a dangosyddion potensial i benderfynu ar gynnydd a thangyflawni hefyd. Roedd hyn arfer cael ei wneud gan ddefnyddiwyr TGCh profiadol. Darpara *'Pathways for Schools'* **adnodd syml, effeithiol i alluogi pob athro**.

Dywed Ann, "Yn ystod y broses draddodiadol o ysgrifennu adroddiadau, hawdd oedd gweld lefel straen yn cynyddu a byddai'n staff dysgu a'n staff gweinyddol wir yn teimlo'r pwysau. Ers defnyddio *'Pathways for Schools'*, bron dydw i ddim yn sylwi ei fod yr amser yna unwaith eto. Mae'r staff wedi dod yn gynyddol hyderus yn defnyddio'r dull newydd ar-lein hwn ac maent yn mentora ei gilydd sy'n beth gwych i'w weld.

Nawr rydym yn bwriadu ehangu ar ein defnydd o *'Pathways for Schools'* trwy gydol y flwyddyn academaidd nesaf er mwyn hwyluso'n prosesau ymhellach a chaniatau i rieni gael mynediad ar-lein i gynnydd academaidd eu plant a dogfennaeth ysgol. Yn ogystal rydym yn gobeithio datblygu ymhellach system gyfathrebu electroneg ar gyfer staff dysgu a disgyblion trwy *'Pathways for Schools'*."